# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 11 Mawrth 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Cynllun Adfywio Gweithfeydd Dur Brymbo

**C13 David Ian Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gynllun adfywio gweithfeydd dur Brymbo? (OAQ22977)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £5 miliwn tuag at gostau adennill a datblygu safle'r hen waith dur. Cwblhawyd peth gwaith dymchwel ymlaen llaw eisoes gan Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac maent yn sefydlogi'r llwyfandiroedd ar hyn o bryd ar gyfer y gwaith adeiladu.

### Ymrwymiadau'r Llywodraeth

**C14 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y trafodaethau y mae wedi'u cael â'i gydweithwyr yn y Cabinet ynghylch unrhyw rai o ymrwymiadau'r Llywodraeth sydd i'w cyflawni erbyn mis Mai 2003 ond sydd heb eu cyflawni eto? (OAQ22992)

**Y Prif Weinidog:** Nodir ymrwymiadau'r Llywodraeth yn 'Cynllun i Gymru 2001', a drafodaf yn rheolaidd gyda'm cyd-Aelodau o fewn y Cabinet a'i bwyllgorau a thu allan iddynt.

### Rhagolygon Cyflogaeth

**C15 Brian Hancock:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sut y mae polisïau trafnidiaeth ei Lywodraeth wedi cyfrannu at wella rhagolygon pobl Cymru o ran cyflogaeth? (OAQ22997)

**Y Prif Weinidog:** Y mae cysylltiadau trafnidiaeth da yn chwarae rôl economaidd bwysig ac fe'u hystyrir yn anghenrheidiol ar gyfer datblygu economaidd a chyflogaeth. Adlewyrchir hyn yn yr amcanion strategol a'r meini prawf a ddefnyddiwyd i ddatblygu ein blaenraglen gefnffyrdd, ac i asesu ceisiadau grantiau trafnidiaeth bob blwyddyn. Cydnabyddir hyn hefyd yn 'Cymru'n Ennill', sy'n amlygu pwysigrwydd gwella ein coridorau trafnidiaeth strategol er mwyn economi Cymru. Er enghraifft, drwy gredydau menter cyllid preifat, mae'r Cynulliad yn ariannu'r heol ddosbarthu ddeheuol yng Nghasnewydd.

Amcan arall ein polisi trafnidiaeth yw darparu cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da er budd pobl sydd heb geir, fel bo'r cyfle ganddynt i fynd i fyd cyflogaeth. Er enghraifft, yr ydym wedi cymeradwyo cais £1.6 miliwn i gefnogi cynllun yn Sir y Fflint a fydd yn sicrhau cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus i, ac oddi fewn, ystad ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy. Yr ydym hefyd yn ariannu cynlluniau cerdded a seiclo i Barc Menter Abertawe.